Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Tiwtor**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Adran/Pwnc:** | Osteopatheg |
| **Cyflog:** | Gradd 07 £32,982 i £37,099 y flwyddyn pro rata ynghyd â buddion Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) |
| **Oriau gwaith:** | Rhan-amser, 14 awr yr wythnos (40% Cyfwerth ag Amser Llawn) |
| **Nifer y swyddi:** | *1* |
| **Contract:** | Parhaol |
| **Lleoliad:** | Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd:** | Bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd hon gyfrannu at addysgu, asesu a goruchwylio myfyrwyr Osteopatheg ar lefel israddedig ac ôl-raddedig ac ar draws y Gyfadran pan fo angen, yn ogystal â rhannu cyfrifoldebau gweinyddol trefniadol ac academaidd. Bydd angen iddo ddarparu gweithgareddau dysgu ac addysgu myfyrwyr o ansawdd uchel, a meddu ar ymrwymiad i wella profiad y myfyrwyr yn gyffredinol.<br><br>1. Goruchwylio myfyrwyr mewn ymarfer clinigol<br>2. Asesu myfyrwyr, gan roi adborth a chefnogi eu datblygiad<br>3. Cynnal cofnodion priodol a chyfathrebu'n effeithiol â chleifion, myfyrwyr a'r tîm osteopatheg. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 1. Addysgu fel aelod o dîm addysgu datblygol, o fewn rhaglen sefydledig mewn amrywiaeth o leoliadau o diwtorialau grŵp bach i ddarlith fawr. Trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf sgiliau, dulliau, a thechnegau ymarferol, gyda chymorth mentor os bydd angen, herio dulliau meddwl, meithrin trafodaeth, a datblygu gallu myfyrwyr i drafod yn feirniadol a meddwl yn rhesymegol.<br>2. Datblygu ei ddeunyddiau, ei ddulliau a'i ymagweddau addysgu ei hun, a dewis dulliau a meini prawf asesu addas gyda chymorth; Ceisio ffyrdd o wella perfformiad drwy fyfyrio ar y ffordd y mae gweithgareddau addysgu'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno, a thrwy gasglu a dadansoddi adborth. Myfyrio ar ymarfer ac ar ddatblygiad eich sgiliau dysgu ac addysgu eich hun.<br>3. Nodi anghenion dysgu myfyrwyr, diffinio amcanion dysgu addas, darparu adborth adeiladol i fyfyrwyr fel bo angen, darparu cyngor ar sgiliau astudio, a helpu gyda phroblemau dysgu.<br>4. Yn ogystal ag addysgu yn ôl yr angen ar fodiwlau sydd wedi'u datblygu eisoes, bydd y Tiwtor yn adolygu'r modiwlau yn unol ag anghenion dysgu'r myfyrwyr, yn diffinio amcanion dysgu, ac yn cynllunio neu'n dewis dulliau asesu priodol.<br>5. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn yr adran, mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt, ym myd diwydiant/masnach ac yn y byd academaidd.<br>**6.** Dilyn y datblygiadau diweddaraf yn y maes o ran osteopatheg a'r maes pwnc ehangach a'u goblygiadau ar gyfer academia.<br>**7.** Meithrin cysylltiadau mewnol, a chymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol, er mwyn cyfnewid gwybodaeth a meithrin perthnasoedd ar gyfer cydweithrediadau yn y dyfodol.<br>8. Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil neu weinyddol eraill sy'n briodol i'ch profiad a'ch sgiliau ac ymgymryd â'r rhain.<br>9. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>10. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>11. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>12. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| | 13. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br><br>**Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystysgrif foddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau** |

**Meini Prawf y Fanyleb Person**

1. Gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn Osteopatheg
2. Dangos y gallu i addysgu a goruchwylio myfyrwyr yn llwyddiannus
3. Sgiliau trefnu ardderchog i gynllunio gweithgareddau o ddydd i ddydd o fewn fframwaith y rhaglen y cytunwyd arni
4. Gweithio fel aelod effeithiol o'r staff addysgu a chyfrannu at raglenni addysgu ar y cyd â chydweithwyr
5. Bod â digon o wybodaeth arbenigol helaeth yn y ddisgyblaeth a datblygu sgiliau o ran dulliau a thechnegau addysgu, a bod â gwybodaeth amdanynt
6. Tystiolaeth o'r gallu i addysgu neu oruchwylio myfyrwyr yn llwyddiannus, a'r gallu i gyflawni sgorau uchel mewn adborth ar fodiwlau yn ôl y disgwyl
7. Y gallu i gyfleu'r pwnc i gynulleidfa o fyfyrwyr a chynulleidfa academaidd
8. Ymrwymiad i amgylchedd dysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr
9. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus

**Meini Prawf Dymunol**

10. Profiad addysgu sy'n cynnwys goruchwylio myfyrwyr

11. Tystiolaeth o brofiad helaeth o ymarfer clinigol osteopathig ôl-raddedig

**Yr Iaith Gymraeg:**

Level 1 – ‘a little’ - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.

Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we’r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.